# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 23 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(108)v2

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)

Gweld y cwestiynau

### 4. Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Brentisiaethau yng Nghymru (60 munud)

**NDM5142 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr ymchwiliad i Brentisiaethau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Hydref 2012.

Er gwybodaeth: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 16 Ionawr 2013.

**Dogfennau ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes
Ymateb Llywodraeth Cymru

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5144 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder dwys ynghylch effaith negyddol bosibl y cynigion i ad-drefnu GIG Cymru ar gleifion.

2. Yn nodi pryderon eang ynghylch y ffordd anghyson y mae byrddau iechyd lleol yn cynnwys y cyhoedd yn y broses o newid y GIG.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'i harweiniad ar gynnwys y cyhoedd yn y broses o newid gwasanaethau'r GIG i sicrhau na ellir anwybyddu barn y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol gwasanaethau'r GIG.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gallu ateb unrhyw alw ychwanegol a allai godi yn sgîl ad-drefnu GIG Cymru cyn y caiff unrhyw newidiadau eu gwneud.

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM5146 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniad enfawr y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol i economi a diwylliant Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau llwyddiant parhaus y sectorau hyn drwy:

a) adolygu gweithrediad adroddiad Hargreaves, 'Calon Cymru Ddigidol', i sicrhau bod ei pholisïau'n berthnasol a chyfoes, yn benodol o ran datblygu system breindaliadau hawliau perfformio i Gymru; a

b) sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn adolygu ei strategaeth ar ffurfiau celf yn ystod 2013 ac yn rhoi sylw llawn i'r angen i gynyddu cyfranogaeth yn y celfyddydau, annog pobl ifanc i ymgysylltu â chreadigrwydd, hyrwyddo rhagoriaeth artistig yn y Gymraeg a'r Saesneg a gosod Cymru ar lwyfan y byd.

Gellir dod o hyd i adroddiad Hargreaves 'Calon Cymru Ddigidol' drwy fynd i:

http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/publications/heartofdigitalwales/?lang=en<\}85\{>http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/help/economicrenewal/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn edrych ymlaen at weld adroddiad yr ymchwiliad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Gyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed yng nghyswllt argymhellion 4, 12, 19, 22 a 23 ymchwiliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'r Rhagolygon ar gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru.

Gellir gweld adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7672/Dyfodol%20y%20Cyfrynga

u%20yng%20Nghymru%20-%20Adroddiad%20-%20Mai%202012.pdf

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella argaeledd seilwaith digidol sy'n gallu cefnogi'r celfyddydau a diwydiannau creadigol drwy gynyddu'r mynediad at fand eang cyflym a gwella mynediad at sianeli Cymreig drwy deledu digidol.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd mwy o gyfranogiad yn y celfyddydau yn creu sylfaen gynaliadwy ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yn y dyfodol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cyfranogi sy'n cynnwys llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5145 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Arbennig, Unigryw ac mewn Argyfwng

Y bygythiadau i ddiwydiant Cig Oen Cymru a'r angen i weithredu.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2013